

# Afasic Geirf A

## Syndrom Landau Kleffner (LKS)

### Beth yw Syndrom Landau Kleffner (LKS)?

Math anghyffredin o epilepsi yn ystod plentyndod yw Syndrom Landau Kleffner sy'n arwain at anhwylder iaith difrifol. Fe'i hadwaenir hefyd fel 'afasia epilepsi nad yw'n gynhwysol'. Mae LKS bron yr un mor debygol o effeithio ar ferched â bechgyn.

Bydd yr anhwylder fel arfer yn dechrau rhwng 4 a 7 oed, er y gall ddigwydd mewn plant mor ifanc â 2 oed neu mor hen ag 11 oed. Fel arfer yr arwydd cyntaf bod rhywbeth o'i le yw bod dealltwriaeth plentyn o iaith yn gwaethygu. Yn y rhan fwyaf o anhwylderau lleferydd ac iaith mewn plant bydd iaith y plentyn bob amser yn arafach i ddatblygu; ond gyda LKS ceir arwyddion o golli sgiliau iaith mewn plentyn a oedd cyn hynny'n datblygu ar gyflymder arferol ac oedd wedi mynd heibio i'r cyfnod 'geiriau cyntaf'. Gall y dirywiad hwn o iaith ddigwydd yn araf, dros gyfnod o wythnosau neu fisoedd, neu'n llawer cyflymach, o fewn dyddiau.

Bydd yr anhwylder iaith yn y rhan fwyaf o blant yn effeithio ar ddealltwriaeth o iaith lafar; effeithir yn ddifrifol ar y gallu i siarad fel arfer hefyd. Efallai na fydd y plentyn yn ymateb i synau amgylcheddol, fel cloch drws, y ffôn neu sugnydd llwch.

Yn aml, credir bod plant sydd ag LKS yn fyddar oherwydd eu bod yn cael anhawster i ddeall beth y mae pobl yn ei ddweud wrthynt. Fodd bynnag, dengys profion clyw bod y plentyn yn gallu clywed synau: mae'r anhawster yn deillio o'r dehongliad o'r synau.

Mewn rhai achosion efallai y gwneir diagnosis o fudandod dethol. Yn wahanol i'r plentyn sy'n dioddef o fudandod dethol, bydd y plentyn sydd ag LKS yn methu â siarad ym mhob sefyllfa, nid mewn rhai yn unig. Yn ogystal, mae plant sydd â mudandod dethol yn deall yr hyn a ddywedir wrthynt, ond nid yw hynny yn wir fel arfer yn achos LKS.

Weithiau gall fod yn anodd gwahaniaethu rhwng LKS ac anhwylder awtistaidd. Caiff plant sydd ag awtistaeth anawsterau difrifol i ddeall iaith lafar fel arfer, a gallant hwy hefyd golli eu sgiliau iaith ar ôl cyfnod o ddatblygu normal. Ond bydd anawsterau'n dechrau yn gynharach yn achos awtistaeth (fel arfer yn amlwg i rieni erbyn 30-36 mis oed) a chaiff y plentyn anawsterau gyda phob agwedd ar ryngweithio cymdeithasol a chyfathrebu. I'r gwrthwyneb, bydd plant sydd ag LKS yn ymateb yn gymdeithasol mewn ffordd arferol, a byddant yn cyfathrebu mewn ffyrdd ar wahân i iaith lafar – er enghraifft, trwy ystumiau a mynegiant yr wyneb.

Nid yw hyn yn golygu bod anawsterau plentyn sydd ag LKS yn gyfyngedig i iaith. Bydd rhai plant yn teimlo'n rhwystredig neu'n ofnus oherwydd eu hanallu i gyfathrebu: gall hyn achosi iddynt

golli eu tymer, i encilio o'r byd neu arwain at anawsterau eraill gydag ymddygiad. Os bydd y gweithgaredd epileptig yn effeithio ar rannau blaen yr ymennydd, efallai y bydd plant yn dangos arwyddion o ymddygiad diymatal neu'n dangos arwyddion o ddiffyg rheolaeth dros eu hymddygiad.

Gall fod yn anodd gwneud diagnosis o LKS oherwydd ni fydd llawer o blant yn cael trawiad epileptig amlwg. Bydd gweithgaredd epileptig annormal, yn un llabed arleisiol o'r ymennydd neu'r ddau, yn dangos ar brawf a elwir yn EEG (electro-enseffalogram). Mae llabedau'r arlais yn bwysig ar gyfer deall iaith ac yn bwysig i'r cof. Ni cheir unrhyw dystiolaeth bod niwed i'r ymennydd mewn achosion o LKS; ond bydd y gweithgaredd epileptig sylfaenol yn amharu ar allu'r plentyn i ddysgu a deall iaith.

Mewn rhai plant bydd yr anhwylder cyfathrebu'n amrywio, fel bod posibilrwydd y gall lleferydd ac iaith wella ac yna gwaethygu eto. Bydd plant hyn, yn arbennig y rhai rhwng 6 oed ac yn hyn pan fydd yr anhwylder yn dechrau, yn aml yn gwella'n iawn. Ar gyfer plant iau (y rhai sy'n iau na 4 oed pan fydd yr anhwylder yn dechrau) gall eu nam o ran eu gallu i ddeall iaith lafar barhau i fod yn ddifrifol – er bod rhai plant iau yn gwella ar ôl cyfnod cychwynnol o ddirywiad. O ran trawiadau, mae'r canlyniad fel arfer yn dda, a bydd yr EEG yn normal.

Gan fod LKS yn anghyffredin, ni fydd llawer o bediatryddion erioed wedi dod ar draws achos; felly mae'n bosibl na chaiff y rheswm dros anawsterau cyfathrebu'r plentyn eu hadnabod. Dylai unrhyw blentyn sy'n datblygu anawsterau cyfathrebu difrifol ar ôl cyfnod o ddatblygiad normal fynd at arbenigwr sydd ag arbenigedd ym maes epilepsi, a fydd yn archwilio unrhyw arwydd o epilepsi ac yn argymhell y driniaeth briodol.

### Triniaeth feddygol

Nid yw triniaethau meddygol fel arfer yn effeithiol iawn, ond gallant helpu i reoli'r gweithgaredd epileptig yn ystod y cyfnod cynnar. Gall cyffuriau a elwir yn corticosteroidau helpu – ond mae'r rhain yn gryf a bydd y rhan fwyaf o bediatryddion yn eu defnyddio'n ofalus iawn. Gall moddion eraill ar gyfer epilepsi reoli gweithgaredd epileptig, ond ni fyddant bob amser yn gwella iaith. Mae rhai plant wedi cael budd o ddull penodol o lawdriniaeth ar yr ymennydd – ond nid yw hwn yn briodol ar gyfer plant sydd ag LKS.

### Goblygiadau addysgol

Bydd y rhan fwyaf o blant yn cael budd o ddulliau amgen o gyfathrebu, yn arbennig iaith arwyddion. Fel arfer, bydd angen addysg arbennig ar y rhai sydd â nam iaith parhaus gyda phlant eraill sydd â nam iaith mewn ysgol lle bydd athrawon a phlant eraill yn defnyddio iaith arwyddion. Caiff plant sydd ag LKS eu haddysgu gyda phlant sydd â nam ar y clyw weithiau. Cynghorir

# Afasic GeirfA

rhieni plant sydd ag LKS i ddysgu iaith arwyddion, er mwyn iddynt allu cyfathrebu'n haws gyda'u plentyn.

## Deunydd darllen pellach

Lees, J (1993), *Children with aquired aphasias*, Whurr

## Tafleuni Geirfa perthnasol eraill

- mudandod dethol (6)
- epilepsi a lleferydd ac iaith (24)

## Sefydliadau eraill a all helpu

### **F.O.L.K.S. (Friends of Landau Kleffner Syndrome)**

PO Box 749, Erith, Kent 3UA

Ffôn: 01582 411 143

### **National Society for Epilepsy**

Chalfont St Peter, Bucks SL9 0RJ

Ffôn: 01494 601300

### **British Epilepsy Association**

New Anstey House, Gateway Drive, Leeds LS19 5XY

Llinell gymorth 0808 800 5050

*Ysgrifennwyd gan Dr Gilian Baird, Canolfan Newcomen, Ysbyty Guy's, a Dr Dorothy Bishop, Uned Seicoleg Gymhwysol MRC, Caergrawnt.*